# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mai 2020

Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod preifat (12.30-13.00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan Bwyllgor Diwylliant, Iaith a Chyfathrebu Cymraeg ynghylch COVID-19 a Chwaraeon

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-11-20(P1) Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Iaith a Chyfathrebu Cymraeg

### 2.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Ymateb Covid-19 Llywodraeth Cymru: Busnes a Chefnogaeth Swyddi

(Tudalennau 3 - 9)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-11-20(P2) Llythyr gan y Cadeirydd

## 3 COVID-19: Craffu ar y Gweinidog

(13.00-14.30) (Tudalennau 10 - 14)

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru

Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Economaidd, Llywodraeth Cymru

Simon Jones, Cyfarwyddwr ar gyfer Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru

Huw Morris, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-11-20(P3) Papur Briffio

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.30)

## 5 Preifat

(14.30-14.50) (Tudalennau 15 - 16)

COVID-19: Ystyried tystiolaeth

Cynlluniwr Gwaith Ymlaen

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-11-20(P4) Cynlluniwr Gwaith Ymlaen (Saesneg yn unig)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Eitem 2.1

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

27 Ebrill 2020

Annwyl Dai,

**COVID-19 a Chwaraeon**

Bydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig ac effaith COVID-19 ar feysydd o fewn ein cylch gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gobeithio holi'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch cymorth i sefydliadau sydd o fewn ei gylch gwaith.


O ystyried y berthynas rhwng chwaraeon a diwylliant, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser a lleddfu pwysau ar eich Pwyllgor, a fyddech yn fodlon i'n Pwyllgor graffu ar waith y Dirprwy Weinidog ynghylch effaith COVID-19 ar faterion chwaraeon o ran y cysylltiad â diwylliant?

Os felly, allwch chi gysylltu â'm Clerc erbyn 4 Mai, i roi digon o amser inni baratoi ar gyfer y sesiwn?

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi galwad am dystiolaeth i bob sefydliad o fewn ein cylch gwaith i asesu effaith tymor hwy y pandemig ac agwedd y Llywodraeth tuag at ddarparu cymorth. A fyddech yn fodlon inni gynnwys effaith COVID-19 ar chwaraeon yn ein galwad am dystiolaeth?

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau gan fy mod yn deall bod effaith economaidd digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru yn rhan o gylch gwaith ei Bwyllgor.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor**

cc. Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Ken Skates AS
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

6 Mai 2020

Annwyl Ken

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19: Cymorth busnes a swyddi**

Cyfarfu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ddydd Iau 30 Ebrill i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ar ymateb Llywodraeth Cymru o ran cymorth busnes a swyddi i Covid-19. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i FSB Cymru, CBI Cymru, Cynghrair Twristiaeth Cymru, TUC Cymru, Unite a GMB. Mae trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod ar wefan y Pwyllgor, a gellir ei wylio ar Senedd TV.

Rwyf wedi drafftio'r llythyr hwn i nodi rhai o'r materion y byddwn yn eu trafod yn ein sesiwn graffu yr wythnos nesaf gan obeithio hefyd y byddwch yn ei ddosbarthu i'r timau yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar yr ymateb COVID19. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor galed y mae'r timau hynny'n gweithio i gefnogi pobl ledled Cymru ac roeddem yn credu y gallai'r trosolwg hwn o brofiadau aelodau'r sefydliadau a roddodd dystiolaeth fod yn ddefnyddiol i lywio eu hystyriaethau a'u cyngor ar bolisi yn y dyfodol.

Mae'r syniadau a'r argymhellion yn y llythyr hwn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom a dyma yw barn y tystion a'u sefydliadau nid argymhellion y Pwyllgor na'i aelodau. Nid wyf yn disgwyl ymateb ysgrifenedig iddynt gan y byddwn yn eu trafod yr wythnos nesaf.

**Cymorth busnes**

Ar ôl dechrau araf, a phroblemau o ran capasiti i Busnes Cymru, croesawodd rhanddeiliaid yr ymateb a lefel y cymorth a'r cyngor a roddwyd gan Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru i ymateb i sefyllfa heriol sy'n datblygu'n barhaus. Ystyrir

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

bod cael un pwynt cyswllt â Busnes Cymru yn ddefnyddiol iawn. Nododd un Aelod y dylai Banc Datblygu Cymru gyfathrebu mewn modd mwy gwybodus a phersonol gyda chwsmeriaid posibl newydd sy’n gwneud cais am fenthyciad, yn hytrach na chyhoeddi llythyrau gwrthod/ymatebion safonol.

Dywedodd CBI Cymru fod y rhan fwyaf o fusnesau'n cytuno bod y Llywodraeth wedi camu i’r adwy, ac roedd rhanddeiliaid eraill yn croesawu'r ffaith bod y ddwy Lywodraeth "yn gwrando’n astud", gan obeithio y bydd hyn yn parhau. Mae’r undebau’n glir bod y gwerth o gael strwythurau partneriaeth cymdeithasol sefydledig yng Nghymru wedi’i ddangos, gydag ymgysylltu da â Gweinidogion a’r gyfarwyddiaeth Gwaith Teg.

**Yswiriant**
Er gwaetha'r ffaith bod rhai cwmnïau wedi canfod eu bod wedi’u tanyswirio ar gyfer y sefyllfa hon, ceir cwmnïau sy’n credu bod ganddynt yswiriant digonol ar waith ond maent yn cael trafferth wrth gael yr yswiriwr i dalu. Mae hwn yn fater heb ei ddatganoli arwyddocaol, gan fod busnesau na allant ddibynnu ar daliadau yswiriant yn dibynnu fel arall ar gymorth o bwrs y wlad. Er y byddai'n anghywir beirniadu'r diwydiant yswiriant yn ei gyfanrwydd, dywedodd CBI Cymru nad yw un neu ddau o yswirwyr yn gweithredu’n deg. Roedd y tystion yn credu y byddai mesurau i fynd i'r afael â'r mater hwnnw’n gyflym yn cael eu croesawu.

**Darparu cymorth yn erbyn atal twyll**
Trafododd y tystion y mater o gydbwyso cyflymder a hygyrchedd cymorth tra’n lleihau twyll/camddefnyddio arian. Dywedodd FSB Cymru fod cyflymder yn bwysig a'i fod wedi gweld enghreifftiau o fusnesau yn rhoi arian yn ôl i awdurdodau lleol os nad oedd arnynt ei angen, ac nid oedd CBI Cymru yn ymwybodol o unrhyw gamddefnydd. Nododd FSB Cymru hefyd fod bwlch yn parhau o ran busnesau nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael neu na allant gael mynediad ato. Mae llif arian yn fater allweddol i fusnesau bach a chanolig allu talu cyflenwyr a chael eu talu, ac mae'n cael effaith enfawr ar gadwyni cyflenwi ac economi Cymru yn gyffredinol: Roedd FSB Cymru wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd bod telerau tal yn gwaethygu, yn enwedig gyda chwmnïau mwy sy’n uwch yn y gadwyn gyflenwi a oedd yn newid telerau.

**Gwahaniaeth**
Roedd CBI Cymru yn pryderu am y gwahaniaethau o ran y dull o weithredu mewn rhannau eraill o’r DU. Gwnaethant nodi y byddai hyn yn her arbennig i fusnesau yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, cafodd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar gyfer y rheol 2 fetr yng Nghymru, mewn cyferbyniad â Lloegr, ei chroesawu'n fawr iawn gan y ddau banel.

**Cadw swyddi**
Mae CBI Cymru yn disgrifio'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws fel "bendith wirioneddol" sydd wedi achub llawer o fusnesau, ond bod

diswyddiadau'n digwydd yn awr, fel yn y sector hedfan. Mae pryderon enfawr am y sector hwn a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig, a rhybuddiodd Unite yn benodol am yr effaith ddinistriol ar y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae Unite yn tynnu sylw at yr angen i gadw gweithlu medrus i addasu i anghenion busnes sy'n datblygu o ganlyniad i'r pandemig - i Gymru fod yn wlad y bydd cyflogwyr mawr yn dychwelyd iddi - a chyfeiriodd at y rôl y gallai Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) wedi'i hariannu'n dda ei chwarae. Rhybuddiwyd hefyd am yr ochr arall i hyn, os yw'r ffatrïoedd yn cau bydd y sgiliau'n cael eu colli a bydd yn anodd iawn cael y rhain yn ôl.

Mynegwyd pryder ynghylch camddefnyddio'r system ffyrlo, lle mae cyflogwyr yn gwneud diswyddiadau ar ôl manteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Barn yr undeb oedd ar gyfer "Marc II" o'r system ffyrlo y tu hwnt i fis Mehefin, y dylai cyflogwyr fod yn glir o ran eu cynllun busnes hirdymor a chael eu dwyn i gyfrif amdano, ac mae'n rhaid cynnwys cynrychiolwyr undebau yn yr ymgynghoriadau. Dywedodd Mike Payne o'r GMB na allwn ganiatáu i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i wobrwyo arferion gwael.

**Diogelwch a llesiant gweithwyr**

Roedd pawb yn cytuno bod diogelwch a llesiant y gweithlu yn eithradol bwysig. Mae aelodau CBI Cymru yn dweud bod iechyd meddwl yn broblem ers tro. Maen nhw a'r undebau wedi tynnu sylw at y ffaith, er y bydd rhai gweithwyr yn awyddus iawn i ddychwelyd i'r gwaith, bod eraill yn teimlo'n fwy cyfforddus/mwy diogel yn gweithio gartref. Dywedodd TUC Cymru ei bod yn bwysig iawn, wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i ben, y gofynnir i'r holl gyflogwyr gynnal asesiad risg Covid-19, a bod hyn yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori ag undebau a gweithwyr.

Adroddwyd am arferion gwael mewn rhai gweithleoedd - yn enwedig y sectorau cynhyrchu a gweithgynhyrchu bwyd, manwerthu ac adeiladu. Roedd y tystion o'r farn bod hyn yn dangos yr angen i gryfhau'r drefn orfodi ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a rhoi 'rhagor o ddannedd' iddi. Dywedodd GMB nad oes digon o bobl yn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch nac yn yr awdurdodau lleol i ymdrin â monitro a gorfodi, a bod maint y dirwyon am dorri'r rheolau yn golygu y bydd rhai cyflogwyr yn fodlon eu talu yn lle'r gost ar gyfer rhoi arferion gwaith priodol i gadw pellter cymdeithasol ar waith. Mae angen i weithwyr wybod hefyd eu bod wedi'u hamddiffyn os ydynt yn penderfynu chwythu'r chwiban, a heb fynediad at eu cynrychiolwyr nid oedd yr undebau llafur yn credu y byddai'r sefyllfa'n newid.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod llawer o weithwyr a ddylai fod yn hynanynysu wedi gwneud penderfyniad dros ystyriaethau iechyd i barhau i weithio oherwydd lefel y Tâl Salwch Statudol. Cyfeiriodd GMB at yr enghraifft o gwmni gofal cenedlaethol a ddywedodd ar y dechrau y byddai angen i 150 o weithwyr warchod neu

hynanynysu, ond ar ôl cyhoeddi’r cynllun ffyrlo, cafodd 1,200 o’i gyflogeion lythyrau neu eu gorfodi i aros gartref.

Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch gweithwyr siopau, gan gynnwys mynediad at Gyfarpar Diogelu Personol. Mae cyfran uchel o'r gweithwyr hyn ar incwm isel/Credyd Cynhwysol heb ddewis arall ond i weithio hyd yn oed os ydynt yn sâl. Mae darparu Cyfarpar Diogelu Personol yn broblem, nid yw rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu gorfodi i’r un graddau y tu mewn i siopau o gymharu â thu allan, a bellach mae angen ailstocio’r silffoedd yn gyflymach. Mae cwsmeriaid sy’n cam-drin gweithwyr siop ar lafar yn fater brawychus hefyd, ac mae’r Pwllgor yn nodi bod TUC Cymru wedi codi’r mater hwn â chi.

**Y sector twristiaeth a lletygarwch**
Mae'r Gweinidog a'r Pwyllgor yn ymwybodol o bryderon penodol yn y sector twristiaeth, ac i fusnesau hunanarlwyo yn arbennig, y mae rhai ohonynt yn anfodlon â’r cyflymder a’r gallu i gael mynediad at gymorth. Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru (WTA) fod cyflwyno ail lefel o feini prawf cymhwysedd mewn perthynas â'r cynllun grantiau ardrethi busnes, a nodwyd yn y llythyr a anfonwyd at awdurdodau lleol gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, wedi arwain at ddryswch ac y bu'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru wneud mwy o waith dadansoddi er mwyn pennu cymhwysedd.

Er bod y Gweinidog wedi dweud wrth yr holl awdurdodau lleol i ddefnyddio'u pwerau statudol i arfer disgresiwn, mae’n ymddangos bod rhai wedi gweithredu’n well o lawer wrth dalu nag eraill. Mae'r gofynion ychwanegol hyn hefyd yn golygu bod busnesau sy’n cynnig llety i bobl ar wyliau yn canfod eu bod yng nghefn y ciw ar gyfer prosesu gan fod eu ceisiadau’n fwy cymhleth. Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru mai'r ffordd ymlaen fyddai i Weinidog Cymru dynnu'r canllawiau yn ôl a mynd yn ôl at feini prawf gwreiddiol Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Tynnwyd sylw hefyd at natur dymhorol y sector twristiaeth: gorau po gyntaf y bydd busnes yn dechrau eto, a dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru y byddai llawer o fusnesau a gwestai gwledig yn gallu bodloni rheolau cadw pellter cymdeithasol diogel yn go gyflym gyda rhai newidiadau, er i FSB Cymru nodi effaith ddramatig cadw pellter cymdeithasol ar broffidioldeb ar gyfer y sectorau twristiaeth a lletygarwch - gall fod yn llai costus i rai busnesau aros ar gau. Awgrymwyd cynllun gaeafgysgu ar gyfer twristiaeth, lle gallai busnesau roi rhai pobl ar ffyrlo yn rhannol am weddill y tymor, i leihau’r costau yn ystod y sefyllfa o ran cadw pellter cymdeithasol. Gallent hefyd ymestyn cynlluniau cyllid gyda gwyliau llog am weddill y flwyddyn, i sicrhau bod busnesau’n gallu goroesi drwy’r tymor hwn tan ddechrau’r tymor nesaf fis Mawrth nesaf. Mae CBI Cymru yn nodi bod busnesau twristiaeth mwy yng Nghymru yn teimlo’r effaith hefyd. Hoffai'r Pwyllgor weld cefnogaeth frwd i'r sector wrth symud ymlaen.

**Mynd i'r afael â bylchau yn y system gymorth**

Mae masnachwyr unigol yn enwedig yn disgyn drwy bylchau yn y system. Tynnodd FSB Cymru sylw at bobl sydd newydd ddod yn hunangyflogedig, neu'r rhai a oedd wedi dychwelyd i fod yn hunangyflogedig ar ôl absenoldeb mamolaeth, oherwydd diffyg tystiolaeth o gofnodion cyfrifon, yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt unrhyw eiddo sy'n gysylltiedig â'u busnes neu'r rhai hynny sy'n talu ardrethi busnes drwy eu landlord fel rhan o'u rhent, fel enghreifftiau penodol. Mae gan y Gronfa Cadernid Economaidd drothwy TAW, sy'n golygu bod rhai pobl yn disgyn drwy'r bwlch hwnnw, ac awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau bach y gellid mynd i'r afael â hyn drwy ofynion gwybodaeth eraill a thrwy ddileu'r prawf TAW o bosibl. Effeithiwyd hefyd ar gyfarwyddwyr cwmnïau a oedd yn cael difidendau o'u busnes o ran cyfran eu hincwm y mae'r trefniadau ffyrlo yn darparu ar ei chyfer. Mae angen i'r ddwy lywodraeth fynd i'r afael â'r materion hyn fel mater o frys yn ystod y cam nesaf.

Y gobaith yw y bydd y cynllun benthyciadau adfer newydd ar gyfer microfusnesau yn fuddiol i fusnesau bach a chanolig, ond mae FSB Cymru yn nodi'r angen i werthuso pa mor llwyddiannus yr oedd y cynllun hwnnw a'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws yng Nghymru, er mwyn gweld a oes bylchau parhau y gallai fod angen i Fanc Datblygu Cymru eu llenwi. Cydnabuwyd y trafferthion y mae gyrwyr tacsis hunangyflogedig yn eu hwynebu, a fydd, er gwaethaf y ffaith bod eu busnes wedi dod i ben dros fis yn ôl, heb unrhyw gymorth tan fis Mehefin. Dywedodd GMB fod aelodau sy'n gweithio yn y sector creadigol, twristiaeth, bwytai a thafarndai hefyd ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt yn wael - ni all llawer o'r busnesau hynny fforddio cael benthyciadau ac wynebu dyled yn y dyfodol. Cyfeiriodd GMB at y chwe bragdy mawr nad ydynt yn caniatáu i landlordiaid tafarndai roi'r gorau i dalu am eu prydlesi tra bod yr holl dafarndai ar gau. Mae'r effaith ar y busnesau bach hyn mewn ardaloedd gwledig yn bryder arbennig.

Dywedodd TUC Cymru y byddai'r canlyniadau o beidio â mynd i'r afael â bylchau o ran cymorth swyddi yn "drychinebus" o ran iechyd meddwl, dyled, tlodi, gydag effaith anghymesur ar rai pobl, er enghraifft cymunedau BAME.
O ran cam nesaf y gefnogaeth, cyfeiriodd FSB Cymru hefyd at y cymorth y mae Llywodraeth yr Alban yn ei gynnig i bobl hunangyflogedig. Mae'n ymddangos bod gan yr Alban fwy o oddefgarwch o ran y risg i bobl hunangyflogedig sy'n gallu dangos caledi (h.y. drwy'r [Gronfa Caledi Newydd ar gyfer pobl sydd newydd ddod yn hunangyflogedig]). Efallai y bydd angen proses ymgeisio fwy beichus i liniaru yn erbyn twyll, ond awgrymir y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut mae cynllun yr Alban yn mynd i'r afael â hyn.

Nododd FSB Cymru bwysigrwydd sicrhau nad oes unrhyw faterion o ran tegwch yn codi o effeithiau dosbarthu a gofodol y cymorth ariannol sy'n mynd i'r economi. Cyfeiriodd CBI Cymru at yr effeithiau hynod niweidiol yn sgil y pandemig ar drefi bach, a pho hiraf y bydd yr argyfwng hwn yn parhau y mwyaf o fusnesau fydd yn

diflannu, a nododd FSB Cymru yr effaith o ganlyniad i fusnesau bach sy'n mynd i'r wal a'r effaith yn sgil hynny ar fusnesau mwy sy'n dibynnu arnynt.

**Ailennyn hyder y cyhoedd**

Dywedodd FSB Cymru fod angen i'r broses o ailennyn hyder y cyhoedd gael ei harwain gan gyngor cyhoeddus - bydd defnyddwyr yn newid eu hymddygiad ac yn dymuno bod yn ddiogel, ac mae cyfle yma i Lywodraeth Cymru, drwy Busnes Cymru, siarad â busnesau Cymru am "beth mae da yn ei olygu" a "beth mae diogel yn ei olygu" ac i gyfleu hyn i'r cyhoedd yng Nghymru.

**Gwerthuso'r effaith yng Nghymru**

Cytunwyd ar bwysigrwydd datblygu metrigau i fesur yr effaith ar economi Cymru yn benodol, gydag awgrym gan Gynghrair Twristiaeth Cymru bod angen gwneud ymchwil i asesu'r effaith wirioneddol ar y sector twristiaeth. Dylid gofyn i Lywodraeth y DU sut y mae'n gwerthuso cynlluniau cymorth a sicrhau bod data'n cael eu dadansoddi i ddeall yr effaith yng Nghymru, a gweld a oes unrhyw wahaniaethau yng Nghymru y mae angen rhoi sylw iddynt. Nododd FSB Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws fod yr anhawster cymharol o ran mynediad at gyllid i fusnesau yng Nghymru yn faes lle gallai fod angen i Fanc Datblygu Cymru ddod i'r adwy i lenwi bylchau. Roedd Cynghrair Twristiaeth Cymru o'r farn y dylai rhywfaint o gymorth tymor canolig gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU nad oedd yn cael ei darparu o dan y fformiwla Barnett yn unig, ond gyda lefel o gefnogaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cymharol a maint anghymesur y sector twristiaeth i Gymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi awgrym CBI Cymru y dylid gofyn i Swyddfa Cymru helpu i sicrhau bod data sy'n berthnasol i Gymru'n unig ar gael.

**Awgrymiadau gan dystion o ran y tymor hwy**

- Mae angen gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar sectorau o ran cymorth i fusnesau wrth i'r cyfyngiadau symud dod i ben: mae twristiaeth yn wahanol i weithgynhyrchu a manwerthu.
- Mae busnesau'n newid y ffordd y maent yn gweithredu ac mae angen cymorth ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â hynny, e.e. i fynd i'r afael â bregusrwydd a materion seiberddiogelwch ar gyfer busnesau sy'n symud ar-lein. Er mwyn sicrhau y gall pobl fynd yn ôl i'r gwaith a bod cwmnïau yn gallu dechrau ar y gwaith yn syth, dylai'r Llywodraeth gyhoeddi cyngor a chymorth Adnoddau Dynol i gadw pobl yn ddiogel o dan y rheolau cadw pellter cymdeithasol, a bydd llawer mwy o gyfathrebu a chyngor ar y rheol 2 fetr yn hanfodol ar gyfer ailagor busnesau;
- Cyfeiriodd CBI Cymru at y sicrwydd sydd ei angen, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus a sut i oresgyn yr her o ran sut y bydd pobl yn cyrraedd y gwaith yn ddiogel, o ystyried gorgapasiti y system drafnidiaeth gyhoeddus cyn y pandemig;

- Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod angen i'r Llywodraeth ddarparu canllawiau clir iawn ynghylch ailagor. Awgrymodd hefyd y dylai’r cynlyn ffyrlo, neu ei olynydd, gael ei wneud yn fwy hyblyg, er enghraifft, drwy ganiatáu i bobl ddod yn ôl un diwrnod yr wythnos at ddibenion cynnal a chadw cyn i'r ardaloedd twristiaeth ailagor.
- Roedd yr undebau'n obeithiol y bydd trafodaethau'n parhau i fod yn gadarnhaol ar y materion ehangach y mae dal angen eu datrys, o ran Tâl Salwch Statudol, hunangyflogaeth a'r rhai sy'n dibynnu ar Gredyd Cynhwysol. Dywedodd TUC Cymru fod tâl salwch yn bwysig dros ben, ac mae'r argyfwng wedi amlygu sgandalau ynghylch contractau dim oriau. Dywedodd TUC Cymru fod yn rhaid codi’r Tâl Salwch Statudol i gyflog byw gwirioneddol.

**Ymagweddau economaidd tymor hwy at faterion sydd wedi codi yn sgil Covid-19**

Nodwyd effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol y pandemig ar yr amgylchedd naturiol, ac arferion gweithio hyblyg a'r defnydd o dechnoleg. Roedd Unite yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru edrych eto ar ynni gwyrddach, gan nodi pryder difrifol am yr effaith ar economi Aberdaugleddau a'r ardal gyfagos yn sgil gostyngiadau mewn prisiau olew, ac awgrymwyd y dylid adolygu penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen â Morlyn Llanw Bae Abertawe.

Yn gywir



Russell George MS

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon